CYP(3)-05-11 : papur 1

## Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

**Dyddiad: 15 Mawrth 2011**

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 2 y Senedd

**Pwnc: Adroddiad Blynyddol 2009/10 y Comisiynydd Plant**

**Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth gefndir ar swyddogaeth a chylch gwaith Comisiynydd Plant Cymru ac ar y meysydd hynny yn Adroddiad Blynyddol 2009/10 a fydd yn cael eu trafod gan y Pwyllgor.**

### Cefndir

Cafodd y Comisiynydd Plant ei benodi gan Brif Weinidog Cymru i ddechrau yn ei swydd ar 1 Mawrth 2008. Cymerodd pobl ifanc ran lawn ym mhob cam o'r broses benodi. Caiff y Prif Weinidog ei symud o'i swydd o dan amodau penodol (os yw'r Comisiynydd am i hynny ddigwydd, neu os ystyrir na all gyflawni ei swyddogaeth, neu os yw'n euog o gamymddwyn).

Mae swyddogaeth y Comisiynydd Plant yn swyddogaeth annibynnol ar gyfer hyrwyddo hawliau plant. Y Comisiynydd sy'n sicrhau bod Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac eraill fel y bo'r angen, yn clywed safbwyntiau plant a phobl ifanc ac yn gwybod am y prif faterion sy'n effeithio arnynt. Mae ei rôl yn hynod o bwysig mewn achos lle na chaniateir i blentyn neu berson ifanc fanteisio ar ei hawliau yn llawn neu lle tresbasir ar ei hawliau. Mae'r Comisiynydd yn herio Gweinidogion ac asiantaethau eraill yng Nghymru i fod o ddifrif lle mae gwrando ar sylwadau, problemau ac anghenion plant a phobl ifanc yn y cwestiwn. Mae'r materion a godir ganddo yn cwmpasu amrywiaeth o feysydd polisi a gwasanaethau, gan gynnwys materion sy'n berthnasol ar draws portffolios y Gweinidogion.

O dan y protocolau presennol a gytunwyd rhwng Swyddfa'r Comisiynydd Plant a Llywodraeth Cynulliad Cymru, rhaid i'r Comisiynydd gyflwyno adroddiad blynyddol ar ei weithgareddau i'r Prif Weinidog erbyn 1 Hydref bob blwyddyn. Bydd y Dirprwy Weinidog yn croesawu'r Adroddiad yn y Cyfarfod Llawn, fel arfer rhywbryd ym mis Tachwedd. Bydd y Prif Weinidog wedyn yn rhoi ymateb cyhoeddus ffurfiol sydd wedi'i gymeradwyo gan y Cabinet, a chynhelir dadl ar hwnnw yn y Cyfarfod Llawn cyn ei gyhoeddi erbyn diwedd mis Mawrth y flwyddyn ganlynol.

Wedi'r Cyfarfod Llawn ym mis Tachwedd, mae'r Gweinidogion yn ystyried Ymateb Ffurfiol gan Lywodraeth y Cynulliad sydd wedi'i baratoi gan swyddogion. Mae'r ymateb ynghyd â chyllideb ragamcanol yn eu cymeradwyo ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol. Wedyn bydd yr ymateb yn cael ei gyhoeddi a bydd y Gweinidog arweiniol, sef y Dirprwy Weinidog dros Blant, yn gwneud datganiad ym mis Mawrth. Ar sail y datganiad hwnnw, mae Aelodau'r Cynulliad yn cael y cyfle i gynnig rhagor o sylwadau.

Os bydd y Comisiynydd yn penderfynu cynnal archwiliad o achos penodol sy'n gysylltiedig â Llywodraeth Cynulliad Cymru, mae dyletswydd statudol arno i gyflwyno hysbysiad o'i gylch gorchwyl. Fodd bynnag, mae hefyd wedi cytuno i roi gwybod i Lywodraeth Cynulliad

Cymru os yw'n penderfynu neu'n awyddus i ymarfer unrhyw un o'i swyddogaethau archwilio mewn perthynas â'r Cynulliad. Rhaid iddo wneud hynny trwy ysgrifennu at y Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros y pwnc dan sylw.

## Y meysydd pwnc a nodwyd gan y Pwyllgor

### Cynllun Gweithredu CCUHP Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r camau a'r targedau sy'n deillio ohono.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi datgan yn gyhoeddus ei hymrwymiad i weithio tuag at weithredu'n llawn holl erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) mewn perthynas â phob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru. Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'n partneriaid cenedlaethol a lleol yng Nghymru, a chyda'r plant a phobl ifanc eu hunain, er mwyn gwireddu hynny.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi bod yn gweithio'n agos â Grŵp Monitro corff anllywodraethol CCUHP, Comisiynydd Plant Cymru a phartneriaid cenedlaethol a lleol eraill i ddatblygu dull gweithredu cydgysylltiedig ar gyfer sicrhau bod y Confensiwn yn cael ei weithredu dros y pum mlynedd nesaf, a hynny trwy Gynllun Gweithredu CCUHP a gafodd ei gymeradwyo ar gyfer Cymru.

Cofnodwyd ymateb cadarnhaol iawn i'r rhan fwyaf o'r camau gweithredu o fewn y blaenoriaethau. Mae dros 98% o'r camau yn cael eu gweithredu yn unol â'r amserlen a bennwyd, neu wedi'u cwblhau o fewn yr amserlen berthnasol. Diwygiwyd amserlenni nifer bach o'r camau o fewn y blaenoriaethau. Nid oes modd osgoi'r ffaith na fydd y gwaith mewn rhai achosion yn cael ei gwblhau yn unol â'r amserlen a bennwyd, ond, o edrych ar y cynnydd yn gyffredinol, dyma ddechrau addawol dros ben.

### Cyllideb/arian ar gyfer materion yn ymwneud â phlant. Yn enwedig cyllidebau a'r angen i ddiogelu'r arian a roddir i ddarparu gwasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar.

Cafodd y gyllideb derfynol ei chymeradwyo gan y Cynulliad ar 8 Chwefror 2011. Mae'r gyllideb yn adlewyrchu'n hymrwymiad i amddiffyn y gwasanaethau rheng flaen ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae hynny wedi bod yn ganolog i'r penderfyniadau a adlewyrchir yn y gyllideb.

### Gweithredu argymhellion yr Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb

Gwelwyd cynnydd da o ran y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Ymddygiad a Phresenoldeb a luniwyd mewn ymateb i'r adolygiad hwn. Ers cyhoeddi adroddiad y Comisiynydd, mae swyddogion wedi cyfarfod ag aelodau o'i staff i drafod y cynnydd, sydd wedi'i gydnabod gan swyddfa'r Comisiynydd.

Mae ein Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Ymddygiad a Phresenoldeb yn cyflwyno gwelliannau ymarferol i'n dulliau o hyrwyddo presenoldeb ac ymddygiad da yng Nghymru. Ers iddo gael ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2009, sicrhawyd cynnydd sylweddol o ran gweithredu'r camau a nodir yn y Cynllun.

Mae materion sy'n ymwneud ag ymddygiad a phresenoldeb yn rhan annatod o'n holl fentrau addysgol pwysig, fel y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion. Gan ddefnyddio'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Ymddygiad a Phresenoldeb, rydym yn gweithio i greu diwylliant o ymyrraeth gynnar a chymorth effeithiol, yn ogystal â chreu ffyrdd o rannu arfer da a hyrwyddo ymddygiad da a phresenoldeb yn ein hysgolion.

**Toiledau ysgol**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r farn bod y pryderon a godwyd yn adroddiad 'Codi'r Clawr' yn bwysig a bod angen cymryd camau i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau sy'n gysylltiedig ag iechyd, hylendid a diogelwch mewn toiledau ysgol.

Yn ddiweddar, cyhoeddwyd ymgynghoriad ar y Canllawiau Arfer Gorau o ran safonau toiledau ysgol, ac mae'r ymatebion yn cael eu hystyried ar hyn o bryd. Bydd y canllawiau terfynol yn cael eu cymeradwyo gan y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes a'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

**Diogelu ac amddiffyn plant, gan gynnwys y meysydd lle mae 'bwlch rhwng polisi ac arfer' yn parhau i fodoli, gan sicrhau ein bod yn gwarchod y gweithwyr rheng flaen ac yn buddsoddi ynddynt.**

Rydym yn gweithio mewn nifer o feysydd i fynd i'r afael â'r materion hyn. Yn ddiweddar, aethom ati i greu Fforwm Diogelu Plant Cymru sy'n cynnwys cynrychiolwyr lefel uchel o'r tu allan a'r tu mewn i Lywodraeth y Cynulliad, gan gynnwys y Comisiynydd Plant. Bydd y Fforwm yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd i Weinidogion ynghylch unrhyw gamau y mae angen eu cymryd i gryfhau trefniadau diogelu.

Rydym hefyd wedi ymrwymo i gyflwyno fframwaith newydd i wella amserlenni ac effeithiolrwydd Adolygiadau o Achosion Difrifol.

**Y Comisiynydd yn herio Llywodraeth Cynulliad Cymru i adeiladu pont rhwng yr amcanion a'r egwyddorion ym Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) a phrofiadau bywyd go iawn plant a phobl ifanc Cymru.**

Un o'm prif flaenoriaethau fel y Dirprwy Weinidog dros Blant yw lleihau tlodi plant yng Nghymru. Mae Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn darparu'r fframwaith statudol ar gyfer mynd i'r afael â thlodi plant yng Nghymru. Mae'n rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi Strategaeth Tlodi Plant newydd i Gymru ac i osod nodau penodol ar gyfer yr 13 o'r amcanion cyffredinol sy'n sail i Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru).

**Huw Lewis AC**

**Y Dirprwy Weinidog dros Blant**